**CYFARFOD ARBENNIG O GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD 20/03/26**

**Presenoldeb:**

**Yn bresennol:** Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

**Y Cynghorwyr:** Dave Hughes (Cyngor Sir y Fflint), Medwyn Hughes (Cyngor Gwynedd), Gary Pritchard (Cyngor Sir Ynys Môn), Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych).

**Prif Swyddogion:** Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn).

**Swyddogion eraill yn bresennol**: Alwen Williams (Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig), Sandra Evans (Arweinydd Tîm Ymgynghorydd Adnoddau Dynol – Cyngor Gwynedd), Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:

- Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Cynghorydd Nia Jeffreys (Cyngor Gwynedd) gyda'r Cynghorydd Medwyn Hughes yn dirprwyo
- Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Helen White (Cyngor Sir Ddinbych)
- Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint)
- Alwyn Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)
- Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni chofnodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol yn y cyfarfod.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Penderfynwyd cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Nodwyd fod y paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.

**5. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD CYFARWYDDWR PORTFFOLIO CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD**

a) Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau. Mynegwyd bod un ymgeisydd wedi tynnu ei gais yn ôl oherwydd amgylchiadau personol.

b) Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Portffolio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

c) Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i roi cyflwyniad 10 munud ar y testun 'Beth ydych yn ei weld fel y prif gyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu economi Gogledd Cymru – sut ydych yn gweld y Cynllun Twf yn blaenoriaethu ac yn ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau hyn'.

Ymatebwyd i chwe cwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan yr Arweinyddion, ynghyd a chwestiynau dilynol.

ch) Bu i Alwen Williams adrodd ar ganlyniadau profion seicometreg a gwblhawyd gan yr ymgeiswyr, ynghyd ag adborth o'r ganolfan asesu, fel rhan o'r broses penodi.

Cadarnhawyd mai'r matrics sgorio a ddefnyddiwyd yn y ganolfan asesu. Sgoriodd yr Arweinyddion y ddau ymgeisydd ar eu cyflwyniadau a'u hatebion i'r chwe cwestiwn ffurfiol, a rhoddwyd sgôr cyfartalog i'r ddau ymgeisydd.

d) Cynigwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Hedd Vaughan-Evans.

Pleidleisiwyd ar y cynnig.

**PENDERFYNWYD PENODI HEDD VAUGHAN-EVANS I'R RÔL CYFARWYDDWR PORTFFOLIO CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD.**

Diolchwyd i bawb am eu hamser a'u cyfraniadau yn ystod y broses gyfweliadau hon.

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30 a daeth i ben am 12:45

__________________________________
(Cadeirydd)